**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Y Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddMCD@cynulliad.cymru

Hydref 2018

Annwyl Mick

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 8 Hydref 2018, yn gofyn am esboniad ynghylch sut mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2018 (SL(5)240) wedi mynd yn fwy hyblyg a sut mae hynny yn cyd-fynd ag ymateb y Llywodraeth nad oes newid o ran polisi na dull cyfrifo, wrth benderfynu ar y swm sy'n ddyledus.

Mae Rheoliad 8 yn diwygio Rheoliad 93 o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018 drwy ddisodli fformiwla fathemategol a ddefnyddir i gyfrifo swm is y cymorth cynhaliaeth sy'n ddyledus i garcharor yn ystod cyfnodau yn y carchar â geiriad syml. Mae hyn yn adlewyrchu'r hyn a wnaed â Rheoliadau 94 a 95. Mae'r rhain, bellach, yn rhoi esboniad syml o sut y caiff cymorth ei gyfrifo os bydd myfyriwr yn absennol o'i gwrs yn hytrach na defnyddio fformiwla fathemategol.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi '[t]here is no cost associated with this amendment as the regulation has been made more permissive, but it does not alter the calculation that will be applied to determine entitlement'. Mae hyn yn cadarnhau'n glir nad oes newid yng nghanlyniadau'r broses gyfrifo. Nid yw'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, sy'n gweithredu'r system cymorth i fyfyrwyr ar ran Llywodraeth Cymru, wedi newid y ffordd y caiff y swm sy'n ddyledus i garcharor ei gyfrifo yn sgil y diwygiad hwn. Defnyddir y gair 'permissive' i adlewyrchu'r newid o fformiwla i eiriad o fewn y cyd-destun clir nad oes newid yn y swm cymorth sy'n ddyledus.

Gobeithio bod hyn yn ateb eich cwestiwn.

Yn gywir

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.




**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education